# Rhodri Rhoi Cynnig arni

Un tro roedd yna fachgen bach o'r enw Rhodri. Roedd Rhodri yn byw efo'i fam a'i frawd hyn Dylan yn Eryrys. Un diwrnod roedd Rhodri yn gwylio Dylan yn chwarae gyda'i ffrindiau trwy ffenest ei ystafell wely. Roedd gan Dylan pêl droed newydd.  Roedd Dewi a'i ffrindiau yn chwarae gêm gan gicio'r bêl yn uchel i'r awyr. "Pam wnei di ddim mynd i chwarae hefo dy frawd Rhodri?" holodd Mam. "Mae'r gêm yna llawer rhy anodd i mi, fyddai byth yn gallu cicio'r bel mor uchel â Dewi" meddai Rhodri. Ysgydwodd mam ei phen. "Er mwyn bod yn dda hefo unrhyw beth mae'n rhaid ymarfer." atebodd Mam.

Edrychodd Rhodri ar ei fam a meddwl. Ysgwn i os ydy mam yn iawn? Gwisgodd Rhodri ei esgidiau rhedeg gorau a rhedodd allan i chwarae gyda Dewi. Doedd y gic gyntaf ddim yn un da iawn ond sylweddolodd Rhodri ei fod o'n gwella pob tro. Erbyn heddiw mae pawb yn gofyn i Rhodri dangos ei dric cicio cŵl ar y buarth.